

**2012 Rhif 2377(Cy.255)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Cefnffordd yr A477  
(Man i'r Gorllewin o Gylchfan  
Caeriw i Gyffordd Redberth, Sir  
Benfro) (Cyfyngiadau a  
Gwaharddiadau Traffig Dros Dro)  
2012

*Gwnaed* 13 Medi 2012

*Yn dod i rym* 23 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Medi 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Gylchfan Caeriw i Gyffordd Redberth, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 23 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o gefnffordd yr A477 i'r gorllewin o Gylchfan Caerw i Gyffordd Redberth yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### **Cymhwyso**

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Medi 2012

*R Morgan*

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA  
DROS DRO A GWAHARDDIAD DROS DRO AR  
ODDIWEDDYD**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 253 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Caeriw i bwynt 200 o fetrau i'r dwyrain o gerbyttffordd gylchredol Cylchfan Sageston.

**ATODLEN 2**

**GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Caeriw, tua'r dwyrain i bwynt wrth Gyffordd Redberth, gan gynnwys cerbyttffordd cylchredol Cylchfan Caeriw a Chylchfan Sageston.